**<u>Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD</u>** **<u>EDC 18-02 (p5)</u>**

**Dyddiad:** **Dydd Iau 12 Rhagfyr 2002**
**Amser:** **9.00 – 12.30**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgor 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **CYNLLUN GWEITHREDU AR FUSNESAU CYNALIADWY I GYMRU**

**Pwrpas**

1. Gofyn am safbwynt y pwyllgor ar y drafft ymgynghorol 'Busnes Cynaliadwy i Gymru - Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Busnes Cynaliadwy' (Atodiad A)

**Y cefndir**

2. Mae'r cynllun busnes yn deillio o'r ymrwymiad yn "Cymru'n Ennill" a "Chynllun i Gymru". Ei nod yw codi proffil datblygiad cynaliadwy yng nghyd-destun busnes a chanolbwyntio ar amlhau i'r eithaf <u>effaith</u> y rhwydwaith gymorth yng Nghymru drwy dargedu'r dyheadau canlynol o "Gymru'n Ennill" er mwyn:

- ei gwneud hi'n haws i bobl gael cyngor ymarferol da o fewn fframwaith strategol;
- hyrwyddo a datblygu'r sector gwasanaethau a nwyddau amgylcheddol yng Nghymru, a
- helpu busnesau i fod yn fwy cystadleuol drwy fabwysiadu arferion gwerth gorau amgylcheddol.

3. Cafodd y cynllun gweithredu ei baratoi a'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghori ar yr 2 Hydref a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 26 Tachwedd 2002.

4. O'r 32 ymateb a ddaeth i law gwelwyd cefnogaeth unfrydol i'r cynllun gweithredu drafft, gyda nifer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o ddull cyd-drefnedig, cydlynus, cyfannol o weithredu sy'n osgoi gormodedd o fentrau newydd. Dyma'r diwygiadau a awgrymwyd:

- Yr oedd yr ymatebwyr o'r sector amgylcheddol, academaidd a chyhoeddus yn dymuno gweld diffiniad ehangach o ddatblygu cynaliadwy gan gynnwys: adfywio economaidd, cymdeithasol, ac yn y gymuned leol (gan gynnwys hen ystadau diwydiannol), y sectorau gwirfoddol a chyhoeddus, cronfeydd buddsoddi moesegol, bioamrywiaeth, trafnidiaeth, iechyd, twristiaeth, a materion yn ymwneud â pharciau cenedlaethol. Cafwyd hefyd argymhellion i weld cysylltiadau agosach â chweched cynllun gweithredu amgylcheddol yr UE a gwnaeth rhai o'r ymatebwyr awgrymu bod mwy o gefndir/testun esboniadol yn cael ei ychwanegu i fersiwn derfynol y cynllun.

- Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am fwy o eglurder ar faterion gweithredu, gyda rhai yn gofyn am wasanaethau gweithredol sy'n seiliedig ar anghenion, ond yn fwy na hynny o safbwynt y cwmni gofynnwyd am wasanaethau ymarferol oedd yn canolbwyntio ar y cwsmer. Cafwyd rhai syniadau cadarnhaol am ffyrdd y gellir integreiddio'r porth busnes cynaliadwy gyda safleoedd cymorth-busnes eraill.

- Cafwyd rhai ceisiadau am fwy o dargedau, cynigion gwerthuso ac amserlenni cliriach a chafwyd mewn un neu ddau achos, syniadau ar gyfer ail-strwythuro y tair prif thema.

- Gofynnodd Awdurdod Datblygu Cymru am eglurhad o rai o'i rolau, yn enwedig ym maes hyfforddi a gwelwyd ELWa, ynghyd â'r awdurdodau lleol, yn cynnig chwarae mwy o rôl.

- Ar un llaw cafwyd cais i is-gontractio gwasanaethau i ymgynghorwyr yn y sector preifat, tra bod eraill yn credu y dylai Rhwydwaith Arena gael rôl ehangach a chael eu hariannu fel cwmni sydd â buddiannau cyhoeddus fel yr Ymddiriedolaeth Garbon. Cafwyd argymhellion hefyd ar gyfer cronfa i liniaru'r hinsawdd gwerth £10 miliwn a chaniatáu benthyciadau llog isel er mwyn galluogi cwmnïau i fuddsoddi'n addas.

**Gweithredu gan y Pwyllgor**

5. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y cynllun a rhoi sylwadau arno. Mae'r ddogfen ar gael hefyd ar ffurf MS Word a PDF ar wefan y Cynulliad yn:

http://www.cymru.gov.uk.

**Is-adran Arloesedd a Thwf Cynaliadwy**
**Rhagfyr 2002**